

Cyngor Cymuned Llanfihangel y Pennant a gynhaliwyd yn Y Ganolfan Abergynolwyn, Nos Lun 10 fed Medi 2018

Presennol: Gadeirydd Elwyn Evans, Is Gadeirydd Steve Lewis, H.E. Thompson, Gareth Evans, Robert Jones, Dylan Jarman, Eleri Puw, Cyngorydd Gwynedd Beth Lawton a'r clerc Eileen Jones.

Ymddiheuriad: Wendy Whitby (sal)

Datgan Diddordeb:

Croeshawyd pawb gan y Cadeirydd.

1. Derbyniwyd cofnodion Gorffennaf a llofnodwyd gan y Cadeirydd Elwyn Evans
2. Cae Chwarae: Pasiwyd i drafod os oedd angen holi am brisiau at y flwyddyn 2019 – 20. Pasiwyd i dalu Sean's lawns
3. Mynwentydd: Trafodwyd nad oedd ochr y sietyd wedi ei dorri'n nol, na fynwent y Fedw wedi cael ei thorri yn gyfangwbl. Nodwyd pryder dwr yn mynd lawr y llwybyr at yr Eglwys. Pasiwyd i dalu Sean's Lawns.
4. Llwybrau: Adroddodd y Clerc bod gwariant o £3,000.00 wedi bod ar llwybyr Meriafel a bod popeth yn saff.
5. Cyng. Gwynedd: Beth Lawton: Adroddodd am cyfarfod a Cwmni Egni Aber –efo Liz Saville Roberts. Cael Cyfarfod Cyhoeddus gyda Cyngor Gwynedd yn cynghori bod isio edrych i fewn iddo.
(2) Grwp gwella B4405 – eisiau arolwg traffig gan Cyngor Gwynedd, hefyd pryder y safle bws i blant wrth ymyl Dolffannog. Nodwyd bod plant Ysgol Craig y Deryn yn hapus ar ol mynd nol i'r ysgol. Nodwyd bod tô yr ysgol yn gollwng.
6. Rheoli Data: Trafodwyd aros am arweiniad.
7. Cyngor Gwynedd: Rhaglen waith ar BR13-gatiau, cyferbwyntiau a draenio.
8. Ciosgs: Cyflwr gwael yr olwg arnynt.
9. Rheoliadau Sefydlog: Pasiwyd i dderbyn newidiadau terfynol copi Saesneg.
10. Newid enw y Cyngor: Derbyniwyd e bost gan un o'r cyhoedd bod angen enw mwy modern ar y Cyngor. Pasiwyd nad oedd sail i'r sylwadau ac nid oedd hawl newid.
11. Derbyniwyd e bost gan un o'r cyhoedd yn dweud nad oeddem ni yn lleol yn cael ein rhan mewn budd dal. Pasiwyd iddynt gysylltu a Dafydd Ellis Thomas A.S.
12. Liz Saville Roberts: Derbyn llythyr ganddi yn ymwneud a Hedfan Isel o gwmpas tirwedd fynyddog Dwyfor Meirionnydd i hyfforddi. Trafodwyd a phasiwyd i bawb ymateb yn bersonol i'r Aelod Seneddol.
13. Cais Cynllunio: Trosi beudy yn lety gwyliau – Meriafel Ganol. Wedi gael ei amgylchu yn ystod y gwyliau a danfon ateb yn ol 28/08/18 gyda dau sylwad a ddaeth i fewn. 2. Nodwyd bod gwahoddiad i gyfarfod Cyhoeddus y Parc yn Aberdyfi 02/10/18 – 6.30 -8.30
14. Derbyniwyd Adroddiad Blynyddol Grwp Cynhefin.
15. Major & Evans: Pasiwyd i dalu am waith gweinyddu ar ein rhan.
16. Archwiliad Allanol: Nodwyd gan y Clerc bod tri adroddiad wedi mynd i BDO.
17. Gan Bwyll: Nodwyd y bydd yn y pentref dwy waith y mis pan fyddant wedi penodi lle i barcio.
18. Taliadau:

Major & Evans	gwaith	£90.00	siec	947
Sean's Lawns	llafur	£232.00		948

Cartref Mari Jones:

Casglwyd £25.23 o'r blwch arian.